

Dalen Wybodaeth Gwarcheidiaeth Arbennig

**Eich
cwestiynau
wedi'u hateb
y tu mewn!**

Beth yw Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig?

Mae Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (GGA)

yn ffordd o ddarparu sefydlogrwydd i blentyn na all ddychwelyd i fyw gyda'i rieni biolegol ac ar gyfer yr hwn nad yw mabwysiadu yn briodol. Mae'n ffordd gyfreithiol o roddi cyfrifoldebau clir a hirdymor i'r person sy'n gofalu am y plentyn o ran magwraeth y plentyn. Ar yr un pryd, mae'n cadw'r cysylltiad cyfreithiol rhwng y plentyn a'r rieni biolegol.

Mewn llawer o achosion bydd y plentyn yn parhau i gael cysylltiad gyda'i rieni. Os yw'n briodol, gall y llys wneud Gorchymyn Cysylltu ar yr un pryd â'r GGA. Unwaith y mae GGA wedi ei wneud, bydd y Gwarcheidwad Arbennig fel rheol yn ofalwr parhaol ar gyfer y plentyn nes bydd y plentyn yn 18 oed.

Pryd all Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig fod yn addas?

Gallai Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig fod yn arbennig o addas ar gyfer:

- Plant mewn gofal maeth hirdymor
- Plant sy'n derbyn gofal ar sail barhaol gan aelodau o'u teulu ehangach
- Plant hŷn sydd eisiau cadw cysylltiad cyfreithiol gyda'u teulu biolegol, ond a fyddai'n elwa o drefniadau gofal mwy parhaol

Pwy all wneud cais am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig?

Gwneir Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig drwy wneud cais ffurfiol i llys. Gallwch wneud cais i ddod yn Warcheidwad Arbennig os ydych dros 18 oed ac os ydych:

**Yn
warcheidwad**

Yn warcheidwad y plentyn.

**Lleol
Awdurdod**

Yn ofalwr maeth Awdurdod
Lleol gyda'r hwn y mae'r
plentyn wedi byw am flwyddyn
cyn y gwneir y cais.

**A
Perthynas**

Perthynas y plentyn gyda'r hwn y mae'r plentyn
wedi byw am flwyddyn cyn y gwneir y cais.

Unrhyw un gyda Gorchymyn
Preswylfa neu Orchymyn
Trefniant Plentyn mewn
perthynas â'r plentyn.

**Preswylfa/
Gorchymyn
Plentyn**

**3 allan o
5 mlynedd
diwethaf**

Unrhyw un y mae'r plentyn wedi
byw gyda nhw am dair allan o'r
pum mlynedd ddiwethaf.

Unrhyw un sydd â ffurflen ganiatâd gan: (a) yr Awdurdod Lleol (os yw'r plentyn wedi bod yn plentyn 'sy'n derbyn gofal' dan adran 31 am lai na 12 mis) neu (b) Pawb sydd â gofal rhiant am y plentyn neu'r llys. Bydd unrhyw un nad yw ar y rhestr uchod angen caniatâd y llys cyn y cânt wneud cais.

Caniatâd

Beth gw'r drefn ar gyfer gwneud cais am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig?

Os gdych yn bwriadu

Os ydych yn bwriadu gwneud cais am GGA rhaid i chi ddweud wrth yr Awdurdod Lleol am hyn mewn llythyr o leiaf dri mis ymlaen llaw.

Yn ystod y cyfnod tri mis hwn, bydd yr Awdurdod Lleol yn cwblhau adroddiad ar gyfer y

llys. Mae'r adroddiad hwn yn asesu os mai GGA yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion y plentyn. Rhaid iddo edrych ar anghenion a dymuniadau'r plentyn; gwybodaeth am y darpar Warcheidwad Arbennig; barn y bobl sy'n chwarae rhan ym mywyd y plentyn a pha wasanaethau cymorth all fod eu hangen.

Rhaid cwblhau'r adroddiad hwn boed y plentyn wedi derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol ai peidio. Unwaith y mae'r asesiad wedi ei gwblhau, mater i'r person sydd eisiau dod yn Warcheidwad Arbennig yw penderfynu gwneud cais ffurfiol i'r llys. Efallai yr hoffech gymryd cyngor cyfreithiol ynglŷn â hyn.

Pa gymorth sydd ar gael?

Mae'r cod ymarfer

ar Warcheidiaeth yng Nghymru (2019) yn rhoi dyletswydd newydd i Awdurdodau Lleol hysbysu rhai categorïau o bobl o'u hawl i ofyn am asesiad o'u hangen am wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig. Mae'r rhain yn cynnwys gwarcheidwaid arbennig, darpar warcheidwaid

arbennig, plant sy'n destun trefniadau Gwarcheidiaeth Arbennig, a phlant gwarcheidwaid arbennig. (Gweler pennod 4).

Mae Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygiad) 2018 yn dweud, lle mae plentyn a oedd yn derbyn gofal yn union cyn gwneud gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, y bydd yr Awdurdod Lleol a oedd yn gofalu am y plentyn nawr yn parhau i fod yn gyfrifol am ddiwallu unrhyw anghenion cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig am gyfnod o dair blynedd ar ôl gwneud y gorchymyn, ble bynnag y mae'r plentyn yn byw. Bydd yn rhaid i'r awdurdod hefyd hysbysu awdurdod yr ardal lle mae'r plentyn yn byw o unrhyw anghenion cymorth parhaus wrth i'r cyfnod hwnnw ddod i ben. Nid yw hyn yn berthnasol i gymorth ariannol parhaus a gytunwyd cyn gwneud y gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, a fydd yn aros yn gyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol gwreiddiol.

Pa gymorth sydd ar gael?

Mae'r rheoliadau yn rhagnodi'r gwasanaethau cymorth penodol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i'w darparu i warcheidwaid arbennig, plant a phobl eraill sy'n cymryd rhan mewn trefniadau Gwarcheidiaeth Arbennig. Nid oes yn rhaid i awdurdodau lleol ddarparu'r gwasanaethau hyn yn uniongyrchol, ond gallent drefnu iddynt gael eu cyflenwi mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, fel y bo'n briodol. Y gwasanaethau a ragnodir yw:

Cymorth ariannol

Cymorth cyfoedion

Cyswllt

Gwasanaethau i blant

Cyfrngiad

Os darperir cymorth, bydd y manylion yn cael eu nodi mewn Cynllun Gwasanaethau Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig. Os nad yw'r Gwarcheidwad Arbennig neu'r plentyn angen ymyrraeth bellach, ar ôl darparu'r cymorth, bydd cyfranogiad y Gweithiwr Cymdeithasol Gofal Plant yn dod i ben. Fodd bynnag, gall y Gwarcheidwad Arbennig barhau i ofyn am gyngor a chyfarwyddyd gan y swyddog cymorth dynodedig yn y Tîm Lleoli Teuluoedd.

Gan bwy y mae **cyfrifoldeb rhiant** dros y plentyn?

Yn wahanol i Orchymyn Mabwysiadu

Yn wahanol i Orchymyn Mabwysiadu, nid yw GGA yn golygu bod cyfrifoldeb rhiant yn dod i ben ar gyfer y rhiant biolegol, nac unrhyw un arall gyda chyfrifoldeb rhiant. Serch hynny, mae Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn rhoi cyfrifoldeb rhiant uwch i'r Gwarcheidwad Arbennig.

Mae hyn yn golygu bod gan y Gwarcheidwad Arbennig gyfrifoldeb beunyddiol i ofalu am y plentyn ac am gymryd penderfyniadau o ran sut cânt eu magu a gall oruwchreoli dymuniadau'r rhiant biolegol os oes angen.

Beth all **Gwarcheidwad Arbennig** ei ddisgwyl gan yr Awdurdod Lleol?

Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadw mewn cysylltiad â'r Gwarcheidwad Arbennig i wneud yn siŵr bod popeth yn mynd yn iawn. Penderfynir ar amllder y cysylltiad hwn yn unol â lefel yr angen, a faint o gysylltiad rydych ei angen gyda'r adran. Os yw gwasanaethau cymorth yn cael eu darparu, mae cysylltiad yn debygol o fod yn amlach. Os darperir gwasanaethau cymorth neu gymorth ariannol, caiff y rhain eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion y plentyn. Os oes gennych bryderon neu gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni ar unrhyw adeg.

Beth mae'r Awdurdod Lleol yn ei ddisgwyl gan Warcheidwad Arbennig?

Ychydig o gyfrifoldebau ffurfiol sydd gan y Gwarcheidwad Arbennig i'r Awdurdod Lleol. Serch hynny, dan y gyfraith rhaid i chi hysbysu'r Awdurdod Lleol os, ar unrhyw adeg:

Cyfeiriad

Byddwch yn newid eich cyfeiriad.

Nad oes gan y plentyn gartref gyda chi mwyach.

Hafan

Marwolaeth

Bydd y plentyn yn marw.

Bydd unrhyw newid yn eich hamgylchiadau ariannol neu anghenion ac adnoddau ariannol y plentyn.

**Ariannol
newidiadau**

Rhaid i Warcheidwaid Arbennig sy'n derbyn cymorth ariannol hefyd ddarparu datganiad ysgrifenedig blynyddol o'u hamgylchiadau i'r Awdurdod Lleol. Ond, os byddwch angen trafod unrhyw faterion ar ôl rhoi'r Gorchymyn, gallwch gysylltu â ni ar unrhyw adeg.

Am faint o amser y mae Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn para?

Bydd Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig

fel rheol yn para nes bydd y plentyn yn 18 oed. Gall y llys gytuno dirwyn i ben ('rhyddhau') neu newid ('amrywio') Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig os bydd pobl benodol, megis y Gwarcheidwad Arbennig, rhywun â chyfrifoldeb rhiant neu'r person ifanc, yn gwneud cais i'r llys. Gall

rhieni biologol ond wneud cais i'r llys i ryddhau'r gorchymyn os bu newidiadau arwyddocaol ers pan wnaethpwyd y gorchymyn.

I gael rhagor o wybodaeth

Os ydych angen rhagor o wybodaeth, neu os hoffech drafod gwneud cais am Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, cysylltwch â'r:

Tîm Lleoli Teuluoedd
Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
01495 766697

Cyfeiriadau

- Gwarcheidiaeth Arbennig – Cod Ymarfer ar ddefnyddio swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig (2010). Llywodraeth Cynulliad Cymru: Cymru [arlein].
Ar gael yn: <http://senedd.assembly.wales/documents/s75227/SL5214%20-%20Code%20of%20Practice%20on%20the%20exercise%20of%20social%20services%20functions%20in%20relation%20to%20special%20guar.pdf>. Cyrchwyd ar: 27/03/2020.
- Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 [arlein].
Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/1513/contents/made>. Cyrchwyd ar 27/03/2020.
- Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygiad) 2018 [arlein].
Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/573/made>. Cyrchwyd ar: 27/03/2020.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 [arlein].
Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents>. Cyrchwyd ar: 27/03/2020.